

Cyfarfod Fforwm Hil Cymru
13 Ionawr 2015 am 9.00am-10.30am
Tŷ Hywel, Bae Caerdydd, Caerdydd

Yn bresennol:

Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi

Leanne Rahman	Cymdeithas Hanes Pobl Dduon
Shereen Williams	Cydgysylltydd Cydlyniant Cymunedol Rhanbarth Dwyrain Gwent
Mandy Burrows	Cydgysylltydd Cydlyniant Cymunedol Rhanbarth y Gogledd-ddwyrain
Rocio Cifuentes	Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig
Shahien Taj	Sefydliad Henna
Uzo Iwobi	Cyngor Hil Cymru
Sunil Patel	Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth
David Phillips	Cyngor Cydraddoldeb Cymru
Daniel Hurford	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Swyddogion Llywodraeth Cymru yn bresennol:

Kate Cassidy	Cyfarwyddwr yr Is-adran Cymunedau a Threchu Tlodi
Jo Glenn	Is-adran Dyfodol Tecach
Andrea Adams	Is-adran Dyfodol Tecach
Iwan Evans	Uned y Gymraeg
Beverley Morgan	Is-adran Trechu Tlodi

Ymddiheuriadau:

Aled Edwards	Cynrychiolydd y Fforwm Cymunedau Ffydd
Isaac Blake	Cwmni Diwylliant a Chelf Romani
Beverly Stephens	Prosiect Undod
Maria Mesa	Women Connect First
Melineh Essavy	ABCD Cymru
Hannah Wharf	Cyngor Ffoaduriaid Cymru

Croeso a chyflwyniadau

1. Croesawodd y Gweinidog bawb i'r cyfarfod. Ymunodd Mandy Burrows â'r cyfarfod drwy gyfrwng cynhadledd fideo o'r swyddfa yng Nghyffordd Llandudno. Gofynnodd y Gweinidog i bawb o amgylch y bwrdd gyflwyno'u hunain.
2. Esboniodd y Gweinidog fod Fforwm Hil Cymru yn gyfrwng i Lywodraeth Cymru ymgysylltu â sefydliadau strategol sydd â diddordeb mewn materion cydraddoldeb hiliol ac ystyried y problemau y mae cymunedau BME yn eu hwynebu o ran integreiddio a chydlyniant cymunedol yng Nghymru.

Cofnodion y cyfarfodydd diwethaf

3. Cytunwyd bod cofnodion y ddau gyfarfod diwethaf, a gynhaliwyd ar 10 Gorffennaf a 13 Mawrth 2014 yn gywir a nodwyd hynt y camau gweithredu.

Eitem 1: Y Fframwaith Troseddau Casineb

Jo Glenn (Is-adran Dyfodol Tecach, Llywodraeth Cymru)

4. Gofynnodd y Gweinidog i Jo Glenn roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Fforwm am hynt y Fframwaith Troseddau Casineb. Cyn y cyfarfod, roedd papur yn ymwneud â throseddau casineb wedi'i ddsbarthu.
5. Mynd i'r afael â throseddau a digwyddiadau casineb – lansiodd Fframwaith Gweithredu a chynllun cyflenwi ym mis Mai 2014. Mae'r Fframwaith yn esbonio'r tri amcan strategol i gydgyssylltu a bwrw ymlaen â'r gwaith sy'n mynd rhagddo drwy Gymru i atal troseddau casineb, cynorthwyo dioddefwyr a gwella dulliau amlasiantaeth o ymateb.
6. Lansiodd a chadeiriodd y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi'r Grŵp Cynghori Annibynnol (y Grŵp) ym mis Hydref 2014. Mae'r Grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o'r trydydd sector. Bydd cynrychiolwyr o'r Grŵp yn casglu tystiolaeth gan randdeiliaid rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2015 i ddangos pa gynnydd a wnaed yn ystod blwyddyn gyntaf y Fframwaith ac i gynghori ynghylch cynnwys y Cynllun Cyflenwi yn ystod yr ail flwyddyn. Caiff adroddiad terfynol y Grŵp ei gyhoeddi ym mis Mai 2015.
7. Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu'r Ganolfan Genedlaethol Adrodd am Droseddau Casineb drwy Gymorth i Ddioddefwyr Cymru. Yn ystod y saith mis cyntaf cyfeiriwyd 761 o achosion at y Ganolfan – a chafodd 554 o'r rhain eu cofnodi'n droseddau casineb. Hefyd, mae tri phrosiect Eirioli a Grymuso ar waith dan arweiniad Rhwydwaith Cydraddoldeb Hiliol Gogledd Cymru, Cyngor Cydraddoldeb Hiliol Bae Abertawe a phrosiect cydweithredol dan arweiniad Race Equality First.
8. Gofynnodd Jo am farn aelodau'r Fforwm am yr hyn y dylai Llywodraeth Cymru fod yn canolbwyntio arno a sut y gellid ymgysylltu mwy â chymunedau a chodi eu hymwybyddiaeth o'r Fframwaith.
9. Roedd yr aelodau am wybod sut roedd y Fframwaith yn cael ei hyrwyddo i sicrhau bod rhagor yn gwybod amdano. Cadarnhaodd Jo fod y Fframwaith yn cael ei hysbysebu yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb. Yn ystod yr wythnos, bydd yr ymgyrch gyhoeddusrwydd yn canolbwyntio ar un nodwedd warchoddedig wahanol bob dydd. Mae Cymorth i Ddioddefwyr hefyd wedi gwneud cryn dipyn i dynnu sylw at eu gwasanaethau.
10. Esboniodd Mandy fod ymgyrch radio lwyddiannus wedi'i threfnu yn Wrecsam i ledaenu'r neges ymhlith y cyhoedd. Gall un orsaf radio leol, Calon FM a radio'r ysbyty, gyrraedd dros 8.5 miliwn o bobl. Yn Wrecsam, roedd hyrwyddwyr o gymunedau lleol ynghlwm wrth y gwaith o'i hysbysebu ac roedd hyn yn llwyddiant mawr yn yr ardal.

11. Gofynnodd yr aelodau sut y mae ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn cael gwybodaeth am y modd y gallant roi gwybod i'r heddlu am droseddau casineb. Cadarnhaodd Jo fod cynrychiolwyr o Gyngor Ffoaduriaid Cymru ar y Grŵp Cynghori Annibynnol ar Droseddau Casineb.
12. Cytunodd yr aelodau fod gan y Fforwm ran i'w chwarae yn y modd y maent yn defnyddio'u rhwydweithiau a'u partneriaid i annog pobl i roi gwybod i'r heddlu am droseddau casineb. Dywedodd Uzo fod y Grŵp Cynghori Annibynnol yn mynd i ddefnyddio holiadur i fesur sut roedd y Fframwaith yn gweithio yn y cymunedau. Mae hi'n aelod o'r Grŵp Cynghori Annibynnol ac roedd wedi paratoi papur i'r Fforwm yn ymwneud â'i waith.
13. Dywedodd yr aelodau hefyd fod troseddau casineb seiber yn broblem fawr a chafwyd enghreifftiau'n ddiweddar o gasineb ar-lein a dargedwyd at grwpiau lleiafrifol. Roeddent yn cytuno bod angen erlyn rhagor am droseddau casineb seiber er mwyn atal yr achosion hyn. Tynnodd rhai aelodau sylw at y sylwadau negyddol roeddent wedi'u cael ar y cyfryngau cymdeithasol. Esboniodd aelodau eraill sut roeddent yn defnyddio'r adran sylwadau mewn papurau newydd i gywiro datganiadau anghywir neu i roi rhybudd am ganlyniadau gwneud datganiadau a oedd yn ysgogi casineb.
14. Dywedodd rhai aelodau ei bod yn bwysig atal troseddau casineb yn hytrach na rhoi'r pwysau ar y dioddefwyr i roi gwybod amdanynt. Fodd bynnag, gellid gwella ffurflenni cyfeirio i'w gwneud yn gliriach a byddai rhagor o hyfforddiant i swyddogion yr heddlu ar gofnodi troseddau casineb yn gam ymlaen. Cytunodd y Gweinidog fod y cyhoedd i'w gweld yn amharod i roi gwybod am droseddau casineb, er bod yr heddlu, fodd bynnag, yn awyddus iddynt wneud hynny. Awgrymodd y byddai'n ddefnyddiol pe bai cynrychiolydd o'r heddlu'n dod i'r cyfarfod nesaf i esbonio'r broses ar gyfer cyfeirio troseddau casineb.

Camau i'w cymryd:

- Ailddosbarthu gwybodaeth am gofnodi troseddau casineb (Ysgrifenyddiaeth)
- Ailddosbarthu'r daflen wybodaeth am Droseddau Casineb Hiliol (Ysgrifenyddiaeth)
- Cynrychiolydd o'r heddlu i ddod i'r cyfarfod nesaf i esbonio'r broses ar gyfer cyfeirio troseddau casineb (Ysgrifenyddiaeth)

Eitem 2 : Prosiectau troseddau casineb a gyflwynir gan Grŵp Cydraddoldeb Cymru.

15. Gofynnodd y Gweinidog i David Phillips roi'r wybodaeth ddiweddaraf am hynt y prosiectau troseddau casineb a gyflwynir gan Grŵp Cydraddoldeb Cymru.

16. Esboniodd David fod y Grŵp yn cynnwys pump o gynghorau cydraddoldeb drwy Gymru. Diben y Grŵp yw creu rhwydwaith strategol genedlaethol gref a, rhyngddynt, llenwi'r bylchau sylweddol yn y gwasanaethau a ddarperir i gymunedau, codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r problemau a chyflwyno gweledigaeth unedig. Mae'r Grŵp yn cydweithio ledled Cymru ar waith achos yn ymwneud â gwahaniaethau, yn enwedig troseddau casineb.
17. Dechreuodd rhaglen troseddau casineb y Grŵp drwy gasglu tystiolaeth gan y cymunedau. Ymddengys bod y dystiolaeth a gasglwyd hyd yma'n dangos bod dioddefwyr yn amharod i roi gwybod i'r heddlu am droseddau casineb ac nad ydynt, yn gyffredinol, yn deall eu hawliau. Bydd y data a gasglwyd yn dangos y ddemograffeg amrywiol a bydd yn helpu i drefnu rhaglenni i godi ymwybyddiaeth yn y dyfodol. Caiff adroddiad ei gyhoeddi ar gasgliadau'r ymchwil.
18. Nod rhaglen y Grŵp i godi ymwybyddiaeth o droseddau casineb yw annog pobl i roi gwybod amdanynt, cynyddu'r nifer sy'n cael eu herlyn, a helpu'r heddlu i wella canlyniadau i ddiodesfwyr. Bydd y Grŵp yn bwrw ymlaen â'r rhaglen i roi trefniadau ar waith i ganiatáu i asiantaethau gydweithio ac i gryfhau eu cytundebau presennol â'u partneriaid ac asiantaethau eraill. Bydd y Grŵp yn recriwtio ac yn hyfforddi gwirfoddolwyr i ddatblygu fforymau cymunedol.
19. Gwaddol y rhaglen Troseddau Casineb fydd ugain o astudiaethau achos yn ymwneud â diodesfwyr; adroddiad ar gasgliadau'r gwaith ymchwil; canllawiau ar arfer da ar gyfer eiriolaeth ym maes troseddau casineb; cynhadledd derfynol a phapur yn gwerthuso'r prosiect wedi iddo ddod i ben.
20. Gofynnodd Uzo a oedd y Rhaglen wedi casglu data i ddangos faint oedd wedi rhoi gwybod i'r heddlu am droseddau casineb. Cadarnhaodd David nad oedd y wybodaeth hon ar gael ar hyn o bryd gan mai dim ond ers chwe mis roedd y prosiect wedi'i sefydlu. Gofynnodd Uzo a oeddent yn gweithio mewn partneriaeth â Chymorth i Ddiodesfwyr. Cadarnhaodd David fod gan Rwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol Gogledd Cymru (NWREN) gytundeb lefel gwasanaeth gyda Chymorth i Ddiodesfwyr a bod gan Rwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol De-ddwyrain Cymru (SEWREC) gytundeb llafar â'r corff. Nid oes unrhyw gysylltiadau ffurfiol rhwng y Grŵp a'r pedwar Comisiynydd Heddlu a Throseddu ond, roedd heddlu Gwent wedi neilltuo arian ar gyfer Canolfan Gwasanaethau i Ddiodesfwyr.
21. **Cam i'w gymryd:** Cytunodd y Gweinidog i ysgrifennu at y pedwar Comisiynydd Heddlu a Throseddu ynghylch eu blaenoriaethau ym maes troseddau casineb a byddai'n adrodd yn ôl i'r Fforwm.

Eitem 3 – Tlodi Plant

Beverley Morgan, Pennaeth Polisi Trechu Tlodi.

22. Gofynnodd y Gweinidog i Beverley roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Fforwm am y gwaith o ddatblygu Strategaeth Tlodi Plant ddiwygiedig i Gymru.
23. Esboniodd Beverley fod Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ynghylch Strategaeth Tlodi Plant ddiwygiedig i Gymru. Rhoddodd Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 ddyletswydd statudol ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi Strategaeth Tlodi Plant Cymru ac i bennu amcanion i drechu tlodi plant a gwella canlyniadau i deuluoedd incwm isel. Cyflawnwyd y ddyletswydd hon pan gyhoeddwyd Strategaeth Tlodi Plant 2011, yn ymwneud â'r cyfnod rhwng 2011 a 2014.
24. Mae'r Strategaeth ddiwygiedig a gyhoeddodd Llywodraeth Cymru i ymgynghori yn ei chylch, yn ei galluogi i gadarnhau ei hymrwymiad i ddileu tlodi plant erbyn 2020.
25. Mae'r Strategaeth Tlodi Plant ddiwygiedig hefyd yn hefyd yn cadarnhau'r ymrwymiad i gyflawni'r tri amcan strategol a nodir yn Strategaeth Tlodi Plant 2011, sef:
 - Lleihau nifer y plant sy'n byw ar aelwydydd heb waith.
 - Gwella sgiliau rhieni a phobl ifanc sy'n byw ar aelwydydd incwm isel i'w galluogi i gael swyddi sy'n talu'n dda.
 - Lleihau anghydraddoldeb ym maes iechyd, addysg a chanlyniadau economaidd plant a theuluoedd drwy wella canlyniadau'r tlotaf.
26. Mae'r ddogfen ymgynghori'n cyfeirio'n benodol at bwysigrwydd creu cysylltiad â'r agenda cydraddoldebau, gan fod rhai grwpiau (er enghraifft, y rhai â nodweddion gwarchoddedig) yn fwy tebygol o fod yn byw mewn tlodi.
27. Trafodwyd pwysigrwydd casglu data am ganlyniadau lleiafrifoedd ethnig gwahanol. Yn benodol, roedd pryder ynglŷn â'r diffyg data am ganran y bobl o grwpiau lleiafrifoedd ethnig sy'n byw mewn cartrefi incwm isel. Ar hyn o bryd, dim ond data ar gyfer y DU sydd ar gael. Ceir gwahanol gyfraddau o dlodi ymhlith gwahanol grwpiau BME.
28. Gofynnodd Beverley am farn y Fforwm, gan dynnu sylw at y ffaith ei bod hefyd yn bwysig tynnu at ymchwil a wnaed ar dlodi ac ethnigrwydd, tebyg i waith Sefydliad Joseph Rowntree.
29. Roedd y Fforwm yn teimlo y dylid rhoi mwy o bwyslais ar yr hyn y mae'r dystiolaeth yn ei ddweud wrthym am deuluoedd lleiafrifoedd ethnig a thlodi plant yng Nghymru. Gellid cael gwybodaeth am dlodi ac aelwydydd incwm isel gan Gyngor ar Bopeth ac Undebau Credyd, o bosibl. Mae angen tystiolaeth ar wahân ynghylch lefelau tlodi yng Nghymru, yn hytrach na chanolbwyntio ar dueddiadau ar lefel y DU gyfan.
30. Gofynnodd Uzo i Beverley ddod i gyfarfod Cyngor Hil Cymru.
31. Diolchodd y Gweinidog i bawb am y drafodaeth. Cadarnhaodd uchelgais Llywodraeth Cymru i ddileu tlodi plant erbyn 2020 a

phwysleisiodd fod holl Weinidogion Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar drechu tlodi.

32. Camau i'w cymryd

- Dolenni i'r ymgynghoriad i'w hailddosbarthu (Ysgrifenyddiaeth)
- Beverley i anfon rhestr o aelodau'r Grŵp Cynghori Allanol ar Drechu Tlodi ac enwau hyrwyddwyr Gwrth Diodi awdurdodau lleol at y Fforwm. (Beverley Morgan)
- Rhannu asesiadau o effaith â'r Fforwm (Beverley Morgan)

Eitem 4 – Unrhyw fater arall

33. Yn y cyfarfod Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 21 Awst, cytunwyd mai thema cyfarfod nesaf y Fforwm fydd materion iechyd BME.

Gofynnodd y Gweinidog i'r aelodau gysylltu â'r Ysgrifenyddiaeth os oedd ganddynt unrhyw awgrymiadau ynghylch y meysydd y gellid ymdrin â nhw yn y cyswllt hwn.

34. Tynnodd y Gweinidog sylw bawb at y papurau a rannwyd er gwybodaeth gan Gyngor Hil Cymru a Grŵp Cydraddoldeb Cymru. Roedd y rhain yn rhoi gwybodaeth am y cyfarfodydd y maent yn eu mynychu fel cynrychiolwyr Fforwm Hil Cymru sef y grŵp rhanddeiliaid i gynyddu nifer y rhai o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol sy'n cymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus a Grŵp Cynghorol y Gyllideb ar Gydraddoldeb (BAGE). Caiff y rhain eu rhoi ar y rhyngwrdd, ynghyd â'r papurau eraill a chofnodion y cyfarfod eraill

35. Mae'r Ysgrifenyddiaeth wedi dosbarthu cylch gorchwyl diwygiedig i ystyried aelodaeth newydd y Fforwm.

36. Gofynnodd Uzo a allai Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector fod yn eitem sefydlog ar yr agenda.